## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: [redacted]

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Mudiad Meithrin

Cyfeiriad e-bost/rhif ffôn: [redacted] / post@meithrin.cymru

Eich cyfeiriad:
Prif Swyddfa
Mudiad Meithrin
Y Ganolfan Integredig
Boulevard de Saint-Brieuc
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1PD

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. A yw'r weledigaeth, y diben, y gwerthoedd a'r dyfodol dychmygol hyd at 2030 yn adlewyrchu'r hyn yr hoffech ei weld yn cael ei gyflawni erbyn 2030? Beth allai rwystro'r weledigaeth a'r gwerthoedd rhag cael eu gwireddu? Beth allai helpu i wireddu'r weledigaeth a'r gwerthoedd?

    - Gweledigaeth: Cytunwn a chefnogwn y weledigaeth o greu Cymru wrth-hiliol ac edrychwn ymlaen i gydweithio ag eraill i wneud ein rhan fel mudiad i wireddu'r nod. Mae bod yn wrth-hiliol yn golygu deall pam a sut fod hiliaeth yn bodoli a bod angen gweithredu'n rhagweithiol i adnabod, cydnabod a hyrwyddo gwrth-hiliaeth yn bersonol, yn dorfol ac ar lefel sefydliadol. Cytunwn fod rhoi gofod i leisiau bobl Ethnig Leiafrifol i gydweithio dan amodau teg â phobl gwyn neu bobl o ethnigrwydd fwyafrifol, yn debygol o greu Cymru wahanol a gwell erbyn 2030.
    - Os rydym am greu Cymru gwrth-hiliol, dylai gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar fod yn ganolog i'r cynllun. Dyma ymateb Prif Weithredwr Mudiad Meithrin, Dr Gwenllian Lansdown Davies i'r ymgyrch *Black Lives Matter*.

- Diben: Cytunwn mai Cynllun Gweithredu yw'r ffordd orau o ddangos bod y gwaith o gyflawni addewidion a wnaed ac a wneir yn digwydd ar fyrder, yn hytrach na chreu strategaeth sydd wedi tanseilio'r gymuned Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mor aml yn y gorffennol. Croesawn y pwyslais ar sgyrsiau anodd ac rydym yn falch o fod wedi cyd-drefnu hyfforddiant am ragfarn ddiarwybod dan nawdd Llywodraeth Cymru ac asesu effaith cydraddoldeb fel cam cyntaf i swyddogion ddechrau deall sut gall rhagfarn effeithio a chynnal systemau hiliol yng Nghymru. Fodd bynnag, credwn fod lle i bwysleisio bod gwaith strategol dwys a rhagweithiol angen digwydd yn ogystal er mwyn i'r newid erbyn 2030 fod yn un parhaol ac yn un a fydd yn dwyn ffrwyth.
- Gwerthoedd: Cytunwn fod clywed ac ystyried profiad byw grwpiau ac unigolion yn rhan bwysig o wneud penderfyniadau. Os nad oes amrywiaeth ddigonol o fewn mudiad/sefydliad, dylid cynnig cyngor ynghylch sut i ymgynghori am benderfyniadau polisi, gweithdrefn a gweithgareddau mewn ffordd sy'n helpu'r mudiad/sefydliad i glywed gan liaws o leisiau. Dylai unrhyw un sy'n gweithio ar lefel rheoli ddeall yr hanes o orthrwm sy'n wynebu unigolion sy'n Ddu, Asiaidd neu'n Ethnig Leiafrifol ac yn ymwybodol o'r baich emosiynol maent yn ei gario. Dylai cynlluniau lles cyflogwyr ystyried profiadau bywyd a'r rhan mae ein profiadau ni i gyd yn ei chwarae wrth lywio ein swyddi, sy'n cysylltu â gwerthoedd lles Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd.
- Cytunwn fod hawliau dynol yn sylfaenol i'r gwerthoedd sy'n gyrru'r cynllun hwn, ac i'w wireddu rhaid codi hyder pobl i herio sylwadau a rhagfarnau hiliol. Byddem yn ychwanegu ymwybyddiaeth o groestoriadedd i'r gwerthoedd yn ymwneud â phrofiadau bywyd oherwydd fod deall y cymhlethdod yma'n allweddol i sicrhau nad yw profiadau pobl yn cael eu cyfannu; e.e. mae plentyn Du sy'n siaradwr Cymraeg yn debygol o wynebu rhagfarn ar sail hil ac ar sail ei fod yn siaradwr Cymraeg a wynebu diffyg dealltwriaeth o'i brofiadau gan ei gymuned ieithyddol a'i gymuned hil o bosib (os nad ydynt yr un cymuned).
- Cytunwn fod tryloywder a bod yn agored yn werthoedd pwysig er mwyn sicrhau nad oes mwy o dangyflawni neu fethu targedau sy'n debygol o danseilio ymddiriedaeth pobl ymhellach, felly bydd angen i Lywodraeth Cymru gymryd arweiniad wrth ddal eu hunain a rhanddeiliaid yn atebol, yn ogystal â modelu agwedd ein bod i gyd angen gweithio'n galed i greu newid a bod pawb ar daith yn lle bod rhai yn ofn beirniadaeth.
- Rhwystrau: Yn gyntaf, diffyg dealltwriaeth gan gyflogwyr am y newid diwylliannol, hir dymor sydd ei angen. Nid mater o gynrychiolaeth yw hyn yn unig ond gweld bod harnesi amrywiaeth yn cyfoethogi ac yn gwella profiadau ac ansawdd gwasnaethau hefyd. Byddai rhannu adnoddau a chanllawiau ymarferol ar gyfer y trydydd sector a busnesau preifat yn hwyluso a chaniatau mwy i feddwl o ddifrif ynghylch sut i ddechrau ar daith tuag at wrth-hiliaeth.

- Perygl arall a ragwelwn yw bod rhai bobl yn gweld hyn fel mater 'niche' neu'n amherthnasol i'w bywyd, gweithle neu gymuned. Rhaid mynd i'r afael ag unrhyw gamddealtwriaeth tebyg yn syth.
- Dangosodd ganlyniadau cyfrifiad 2011 bod oddeutu 10,000 o siaradwyr Cymraeg sy'n Ddu, Asiaidd neu'n Ethnig Leiafrifol, ac mae'n debygol y bydd y niferoedd wedi cynyddu dros y ddeng mlynedd ddiwethaf. Credwn fod angen i'r cynllun bwysleisio'r angen i fynd ati'n stategol i gynyddu'r nifer. Rydym yn rhanddeiliad o gynllun Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erby 2050, ond a yw'r cynllun a'r buddsoddiad hwn yn wrth-hiliol os nad oes gennym ffocws arbennig i gynyddu'r nifer o siaradwyr sy'n Ddu, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol. Credwn fod gan Llywodraeth Cymru rôl i'w chwarae wrth fapio lle mae cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru a chynllunio dechrau neu ehangu addysg Gymraeg yn agosach i'r cymunedau hynny er mwyn sicrhau cyfle i fwy o'r cymunedau gael mynediad i addysg Gymraeg o addysg blynyddoedd cynnar i fyny.

I efelychu'r nodau wrth ymyl grwpiau oed eraill:
**Erbyn 2030, bydd plant bach Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn gweld ein bod wedi gwneud y canlynol gyda'n gilydd:**

- Darpariaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sy'n hygyrch iddyn nhw a'u teuluoedd lle cânt eu croesawu a lle teimlant eu bod yn perthyn.
- Bod plant o amrywiaeth hil yn ffynnu mewn addysg Gymraeg tu hwnt i'r Cylch Meithrin i addysg gynradd, uwchradd a llwybrau hyfforddiant neu addysg ôl-orfodol.
- Cynnyddu'n sylweddol y nifer yr ymarferwyr gofal plant ac addysg gynnar sy'n Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
- Trafodaeth agored am wahaniaethau sy'n dangos fod amrywiaeth yn gryfder sy'n dda i bawb a thrafod rhagfarn diarwybod yn dod yn rhan o hyfforddiant a dysgu myfyriol.
- Dysgu am hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel rhan o gwricwlwm addysg blynyddoedd cyynnar mewn lleoliadau nas cynhelir.

2. Hoffem gael eich barn ar y nodau a'r camau gweithredu. I fynegi barn ar rai o'r nodau, camau gweithredu a chanlyniadau, neu phob un ohonynt, ystyriwch y canlynol:

   (a) A yw'r esboniad (naratif / cefndir) yn egluro pam rydym wedi dewis y nodau a'r camau gweithredu yn y maes polisi hwn?
   (b) A oes unrhyw flaenoriaethau neu wybodaeth gefndir ar goll neu unrhyw wybodaeth arall?
   (c) Ydych chi'n cytuno â'r nodau a'r camau gweithredu a ddewiswyd? Pa gamau fyddech chi'n eu hychwanegu neu eu dileu?

(d) A fydd pob nod a cham gweithredu cysylltiedig yn cynhyrchu'r canlyniadau dymunol a nodwyd gennym? Os na, beth fyddech chi am ei newid fel ein bod yn cyflawni newidiadau sy'n wirioneddol wrth-hiliol yn yr amserlenni a nodir?
(e) Sut y gellid cynyddu neu liniaru'r effaith gadarnhaol neu negyddol?

- Addysg:

Credwn fod angen cynnwys mwy am rôl a phwysigrwydd lleoliadau addysg Blynyddoedd Cynnar. Mae tystiolaeth yn dangos fod babanod yn sylwi ar hil mor ifanc â 3-6 mis, a bod plant yn defnyddio ystrydebau fel ffordd i gategoreiddio grwpiau o bobl rhwng 3-5 oed.[1] Erbyn cyfnod y blynyddoedd cynnar mae plant yn gallu defnyddio iaith hiliol yn fwriadol.[2] Dyma her i ni fel mudiad a'r sector yn ei gyfanrwydd i ymateb ac ymdrin â gwrth-hiliaeth o ddifrif ym mhob peth a wnawn. Dyma pam yr hoffem weld maes gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar yn rhan llawer mwy canolog o'r cynllun gweithredu hwn.

Croesawn fod y Cwricwlwm drafft ar gyfer lleoliadau addysg ariennir nas cynhelir yn nodi'r canlynol yn y cwestiynau myfyriol ar gyfer arweinwyr:

- *Ydw i wedi ystyried effaith rhagfarn ddiarwybod ar ymarfer a darpariaeth? Oes angen i fy ymarferwyr ymgymryd â dysgu proffesiynol?*
- *Pa mor aml ydw i'n gwerthuso fy mholisi cyfle cyfartal? I ba raddau ydw i'n sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn gynhwysfawr?*

Dyma ymarfer myfyriol sy'n holl bwysig i ymarferwyr yn ein maes gan y byddant yn rhan o gyfnod ffurfiannol iawn ym mywyd plant a dinasyddion y dyfodol. Rhaid arfogi ymarferwyr drwy hyfforddiant a hyrwyddo arfer da i allu ymdrin yn hyderus â materion yn ymwneu â hil ac ethnigrwydd leiafrifol – boed wrth gydnabod a gwrthwynebu hiliaeth neu dysgu a datblygu agwedd wrth-hiliaeth drwy'r lleoliad cyfan.

Credwn bod angen i leoliadau gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar gymryd sylw ac ymgorffori argymhellion yr Athro Charlotte Williams yn ei hadroddiad am ddysgu am brofiadau a hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn dod yn rhan greiddiol o'r cwricwlwm nas cynhelir. Mae ymateb Mudiad Meithrin i'r adroddiad i'w weld yma: <u>Cyflwyno Cymru yn ei holl Amrywiaeth: dysgu am brofiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y blynyddoedd cynnar</u>

---

[1] Winkler, Erin N. (2009). 'Children Are Not Colorblind: How Young Children Learn Race. High Reach Learning.' PACE 3(3) https://www4.uwm.edu/letsci/africology/faculty/upload/children_colorblind.pdf

[2] Van Ausdale D, Feagin JR. (2001). The First R: How Children Learn Race and Racism. Lanham, MD: Rowman and Littlefield. In Akilah Dulin-Keita et al. (2011). The Defining Moment: Children's Conceptualization of Race and Experiences with Racial Discrimination. Ethnic and Racial Studies 34(4): 662–682. doi: 10.1080/01419870.2011.535906. http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC3083924/

Croesawn y targed o '[g]odi ymwybyddiaeth ac...annog mwy o blant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i ymgymryd ag addysg cyfrwng Cymraeg'. Dylai gynnwys penodi pencampwyr addysg Gymraeg sy'n Ddu, Asiaidd neu'n Leiafrif Ethnig ar lefel Cymru gyfan, gan symud tuag at gynrychiolaeth o bob awdurdod lleol. Dylid ymgynghori â rhieni am y rhwystrau sy'n eu wynebu neu ddeall agweddau at addysg Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg sy'n Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ogystal â phobl nad ydynt wedi cael y cyfle i fod yn siaradwyr Cymraeg sy'n Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; byddai'r ddwy safbwynt yn werthfawr i ddeall y rhwystrau a beth allwn ei wneud i newid/gwella profiadau.

Yn bennaf oll, credwn bod angen gwaith manwl o fapio ble mae darpariaethau addysg Gymraeg ac a ydynt yn hygyrch yn ddaearyddol i gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae hyn yn ran o fabwysiadu meddylfry gwrth-hiliol wrth gynllunio strategaethau addysg Gymraeg a chreu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae Cynllun SAS Mudiad Meithrin yn agor darpariaethau Cymraeg newydd, a byddai'n fuddiol pe bai'r Llywodraeth yn mapio lle mae angen darpariaeth Gymraeg i dyfu a fydd yn cynyddu'r nifer o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n siaradwyr Cymraeg.

Cytunwn fod angen monitro CSGAau a bod angen ystyried a blaenoriaethu creu neu ehangu darpariaethau newydd mewn lleoliadau sy'n hygyrch i gymunedau hil amrywiol, gyda'r nod o wneud addysg Gymraeg yn fwy cynhwysol i bob sy'n Ddu, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol. Credwn bod angen i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried a yw eu cynlluniau strategol addysg Gymraeg yn wrth-hiliol ac yn cynnwys y nod o gynyddu amrywiaeth. Dylai awdurdodau lleol hefyd weld addysg Gymraeg fel rhan greiddiol o'u gweithredu gwrth-hiliol yn eu siroedd i sicrhau fod pawb yn derbyn y sgil o gyfathrebu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ychwanegol, mae angen i CSGAau ystyried gwasanaethau cefnogol mewn lleoliadau addysg Gymraeg i grwpiau lleiafrifol dan anfantais, e.e. dysgwyr sy'n ffoaduriaid, ceiswyr lloches a Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er mwyn gwned y lleoliadau'n fwy cynhwysol i'r grwpiau yma sydd â hawl i addysg Gymraeg.

Mae angen blaenoriaethu cynyddu'r nifer o ymarferwyr – boedd yn addysg y blynyddoedd cynnar neu athrawon – sy'n Ddu, Asiaidd neu o Leiafrif Ethnig. Nid yw'n gynnydd a fydd yn digwydd dros nos, ond wrth roi cynlluniau ar waith gellir sicrhau y bydd mwy o blant yn gweld eu hil wedi ei gynrychioli ymysg eu hathrawon. Nid oes angen i ni ailadrodd mor bwysig yw'r agwedd hon, dim ond ei bod yn flaenoriaeth mewn addysg Gymraeg oherwydd y tangynrychiolaeth hanesyddol sy'n parhau i fod heddiw. Credwn drwy gydweithio rhwng gwahanol fudiadau a chyrff addysg law yn llaw ag ymdrech fwriadus gan y Llywodraeth bod modd creu mwy o siaradwyr Cymraeg o amrywiaeth hil ac yn sgil hynny, gweithlu cyfrwng Cymraeg mwy amlethnig.

Cytunwn bod gwaith angen ei wneud ynghylch chwalu ystrydebau. Credwn bod rôl bwysig gan leoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg i'w wneud i hyrwyddo a

chodi hyder rhieni i wneud penderfyniad i drosglwyddo plant i addysg cyfrwng Cymraeg. Hoffem bwysleisio pwysigrwydd ymchwilio i agweddau rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddeall yn well beth ellir ei wneud i gefnogi rhieni Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg.

Dros y flwydddyn ddiwethaf, mae Mudiad Meithrin wedi dechrau edrych sut gallwn fabwysiadu gwrth-hiliaeth i'r ffordd rydym yn gweithredu. Un o'r prosiectau ar waith yw sefydlu proses o asesu effaith cydraddoldeb unrhyw bolisiau, gweithdrefnau a gweithgareddau newydd. Byddai sefydlu rhwydweithiau Cymraeg o bobl sy'n cynrychioli grwpiau cyfiawnder hil er mwyn craffu ar bolisiau ac ati yn help i bartneriaid Cymraeg gael rhwydwaith i droi atynt i ystyried effeithiau posib na fyddent wedi ei sylwi neu ei ystyried.

Mae croestoriadedd yn ystyriaeth bwysig yma wrth herio safbwyntiau sy'n rhagdybio pwy all dderbyn addysg Gymraeg. Mae'n ran o herio tybiaethau na all bobl ifanc/myfyrwyr o gartrefi Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn mynychu addysg bellach neu addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Dylai'r Cynllun Gweithredu Hil hefyd ystyried croestoriadedd siaradwyr Cymraeg o hil neu ethnigrwydd leiafrifol yn ogystal â'r nodweddion gwarchodedig. Gall plant o gartrefi Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol brofi meicro-ymyrraeth am siarad neu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn ychwanegol i'w hil.

Yn ogystal dylai Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl roi ystyriaeth arbennig i blant yn eu lleoliad sydd mewn lleiafrif oherwydd ei hil neu ethnigrwydd.

- Troseddau casineb a chyfiawnder:

Croesawn y weledigaeth i wella sefyllfa unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wrth iddynt ymwneud efo'r system cyfiawnder, oherwydd yn hanesyddol mae diffyg cydlyniant wedi bod rhwng unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'r system hwnnw, gan gynnwys yr heddlu. Fel y nodir yn yr adroddiad (tud. 109) mae'r system gyfiawnder yn rhan gymdeithas lle mae anghyfiawnder yn parhau, felly credwn bod y pwyslais ar gryfhau cymunedau yn un addawol. Mae'n debyg bod unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cynrychioli tua 33% o farwolaethau sydd yn digwydd yn y ddalfa (ers 1990 yng Nghymru a Lloegr), er iddynt cynrychioli tua 14% o'r boblogaeth yma yng Nghymru a Lloegr. Felly dylid nodi gweithredu sy'n mynd i'r afael a'r ffordd mae unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu trin tra bont yng ngofal yr heddlu.

Mae'r nodau sydd yn ymwneud â gor-gynrychiolaeth a throseddau casineb yn bwysig, ond dylid hefyd rhoi sylw uniongyrchol i driniaeth unigolion wrth iddynt ddod mewn i gysylltiad gyda'r heddlu, ac unrhyw gyswllt ymhellach sydd yn dilyn hynny. Dylai'r Cynllun Gweithredu Hil bwysleisio ar driniaeth teg carcharorion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i gymharu efo'u cyfatebwyr gwyn.

- Iechyd:

Croesawn y 5 nod, y camau gweithredu a'r amserlen uchelgeisiol. Bydd angen gwreiddio Asesu Effaith Cydraddoldeb er mwyn cyflawni'r nodau
Cytunwn bod angen gweithredu yn wrth hiliol, gwella mynediad at wasanaethau, creu gweithlu sy'n adlewyrchu Cymru, lleihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau iechyd.

Cytunwn y dylid blaenoriaethu adolygu polisi a gwella trefniadau casglu data a bod angen gwella'r modd y datblygir negeseuon Iechyd y Cyhoedd ynghyd â'r dulliau a ddefnyddir i raeadru'r negeseuon. Rydym yn falch o weld bod lle amlwg I fenywod a'r heriau penodol y gallant eu profi ee wrth ddefnyddio gwasanaethau mamolaeth.
Croesawn y cysylltiadau gyda dogfennau polisi eraill e.e. Cymru Iachach, ynghyd â'r pwyslais ar weithio mewn partneriaeth.

- Gofal Cymdeithasol:

Croesawn ymagwedd sy'n cydnabod bod bylchau mawr yn yr hyn a wyddom a'r hyn y dylem ei wybod a chytunwn gyda'r pwyslais ar gynyddu ystod ac ansawdd y data, yr ymchwil a'r dystiolaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth a'r gweithlu.
Unwaith eto, croesawn y bwriad i ystyried a mynd i'r afael â chyfraniad menywod, yn y gweithlu a fel gofalwyr di-dâl.

Mae gwella mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol a phrofiad ohonynt, law yn llaw â gwella arferion a phrofiadau'r gweithlu, yn hanfodol. Croesawn yn arbennig y bwriad i archwilio ofnau a drwgdybiaeth a'r modd y gall gwasnaethau, er yn ddiarwybod, ymgorffori stereoteipiau a all arwain at eu gwneud yn sefydliadau hiliol.
Mae "cymwys yn ddiwylliannol" yn derm y gellid ei arfer a'i normaleiddio i ddisgrifio canlyniadau'r camau gweithredu, ond bydd angen diffinio beth yn union a olygir gan y term er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb.

Cytunwn gyda'r pwyslais ar ymgysylltu'n well a chydweithio gyda phartneriaid ar draws y sectorau, er mwyn dysgu gwersi a chynllunio gwell gwasnaethau.
Mae adolygu hyfforddiant ymarferwyr yn allweddol ac mae pecyn cymorth cymhwysedd diwylliannol, a'r lle amlwg i groestoriadedd, i'w croesawu.
Mae mynd i'r afael ag aelodaeth Byrddau a phenodiadau cyhoeddus a Grwpiau Rhanddeiliaid i asesu'r aelodaeth yn gam yn y cyfeiriad cywir, felly hefyd yr adolygiad arfaethedig i ddulliau asesu effaith.

- Y Gymraeg

Nododd canlyniadau'r cyfrifiad diwethaf bod oddeutu 10,000 o siaradwyr Cymraeg yn Ddu, Asiaidd neu'n Ethnig Leiafrifol. Er hynny, y canfyddiad cyffredinol yw cysylltu'r Gymraeg a Gwynder felly mae angen gwaith i wella cynrychiolaeth er mwyn newid y canfyddiad hwn, ac addysgu ynghylch hanes lleiafrifoedd ethnig yn y diwylliant Cymraeg yn hanesyddol hefyd. Bu "*hanes lleiafrifoedd ethnig oddi mewn i'r*

*diwylliant Cymraeg, a hynny o ddyddiau Macsen Wledig [335 AD] hyd heddiw*" a pherthyn y Gymraeg i "*Gymry du, y Sipsiwn Cymraeg, Gwyddelod ac Iddewon yng Nghymru*" (Simon Brooks 2021 'Hanes Cymry'). Eto, credwn bydd argymhellion yr Athro Charlotte Williams yn allweddol er mwyn dysgu hanes pobl o gefndiroedd ethnig gwahanol mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae Mudiad Meithrin yn hapus i gyfrannu at y gwaith o gasglu gwybodaeth am y darlun cyfredol ac yn cytuno bod angen deall y rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cael addysg cyfrwng Cymraeg. Dangosodd Adroddiad Prosiect Ymgysylltu Cydraddoldeb Hil a gyflawnwyd gan Mudiad Meithrin fod llawer o waith i'w wneud i wella profiad disgyblion a rhieni sy'n Ddu, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol o addysg a gweithgareddau Cymraeg yn gyffredinol.

Dylid ystyried ac harnesi'r agwedd gadarnhaol sydd gan rieni/gofalwyr tuag at ddysgu ieithoedd yn enwedig os yw'r cartref yn amlieithog eisoes. Dyma a ddywed un rhiant mewn ffilm am amlethnigrwydd ac addysg Gymraeg:
'*The child is like a sponge, he is taking everything in, and it will be just something normal for him to go and speak Welsh…like I speak to my son Polish, and he straight away starts telling me back in Polish. My husband speaking Urdu, he starts speaking Urdu to my husband. It's something so natural for him and I hope he will be fluent in Welsh like he is in Polish, English and Urdu.*'

Dylid adeiladu ar yr agweddau positif yma sy'n gwneud y Gymraeg yn rhan ganolog o gynhwysiant, yn hytrach nag yn rhwystr i gynhwysiant. Meddai'r Dr Gwennan Higham: '*The future of language education in a multilingual Wales must debunk the myth that migrants must focus only on learning English. Migrants themselves show that languages are fluid and complex processes just as their own journeys and stories of settling in Wales. Migrants further show that languages are resources for social and economic investment as well as forms of empowerment to change, challenge and reshape meanings and ideas – including what it means to be a citizen of Wales and a new speaker of Welsh.*'[3]

Rydym wedi adnabod bwlch data yng ngwybodaeth Mudiad Meithrin am hil ac ethnigrwydd y plant sy'n mynychu lleoliadau, felly o'r flwyddyn nesaf ymlaen byddwn y data yma'n cael ei gasglu ar sail wirfoddol er mwyn rhoi gwaelodlin data o'r sefyllfa bresennol. Byddai'n fuddiol i bartneriaid Cymraeg i allu rhannu profiad ac arfer dda ynghylch sut i gyflawni'r nod pwysig yma.

Cytunwn a'r targedau i wella cynrychiolaeth ar fyrddau ac ymhlith staff fel rhan o gyllid grant.

Yn ogystal â bod partneriaid Cymraeg yn ymdrin â'r ffactorau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn digwyddiadau neu weithgareddau, byddai'n dda gweld partneriaid Cymraeg yn cael eu cynnwys mewn camau gweithredu a nodau mewn meysydd polisi eraill, e.e. cyflogadwyedd a sgiliau, y celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a threftadaeth, cyflogadwyedd ac incwm, i enwi rhai.

[3] Migrants, multilingualism and the Welsh language | British Council

Yn ddiweddar mae Mudiad Meithrin wedi dechrau cynnal sesiynau Cylch Ti a Fi ar safle Sipsiwn, Roma a Theithwyr ym Merthyr Tudful gan gydnabod bod rhaid gwahaniaethau'n bositif i sicrhau newid a'n bod yn cyrraedd grwpiau ethnig amrywiol. Mae gwahaniaethu'n bositif yn gam sydd angen digwydd er mwyn gwella cynrychiolaeth yn y gweithlu a sicrhau bod gwasanaethau neu weithgareddau'n cyrraedd pawb. Dylai'r Llywodraeth annog partneriaid Cymraeg i ystyried sut i wahaniaethu'n gadarnhaol fel bod mwy o bobl o wahanol ethnigrwydd lleiafrifol yn dod i gysylltiad a fel bod y Gymraeg yn dod yn fwy hygyrch iddynt.

3. A oes unrhyw nodau a chamau gweithredu y gallwch feddwl amdanynt sydd ar goll? Pwy ddylai eu cyflawni a pha gamau a fyddai'n eu helpu i wneud hynny?
   - Angen mwy o sôn am blant, gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar yn y categoriau gwahanol
   - Llywodraeth Cymru i ymgymryd a gweithgaredd mapio a fydd yn help wrth gynllunio creu darpariaeth addysg Gymraeg yn fwy hygyrch i gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gyda'r nod o gynyddu'r dysgwyr sy'n derbyn addysg Gymraeg a'r niferoedd y siaradwyr Cymraeg
   - Gwersi Cymraeg am ddim i geiswyr lloches a ffoaduriaid. Gweler gwaith ymchwil Dr Gwennan Higham yn ei chyfrol *Creu Dinasyddiaeth i Gymru: Mewnfudo Rhyngwladol a'r Gymraeg*, Gwasg Prifysgol Cymru / University of Wales Press (2020).

4. Beth yw'r heriau allweddol a allai atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cyflawni gwrth-hiliaeth erbyn 2025?
   - Pwyslais ar gyrhaeddiadau tymor byr yn y cynllun ond angen gwaith strategol hefyd fydd yn creu newid hir-dymor a diwylliannol, e.e. faint o siaradwyr newydd Strategaeth Miliwn Llywodraeth Cymru fydd o amrywiaeth hil ac ethnigrwydd neu a yw'r miliwn yn mynd i barhau i fod yn yn Wyn yn bennaf?
   - Tuedd gan bobl mewn ardaloedd lle mae'r dwysedd o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i feddwl fod y cynllun yn amherthnasol iddyn nhw a'u cymuned.
   - Tuedd i feddwl fod materion hil yn rhy anodd i blant bach neu bod plant yn 'ddall' i wahaniaeth hil – canfyddiad ffals.

5. Pa adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, mynediad at wasanaethau cymorth neu eiriolaeth ymhlith pethau eraill) a fydd yn angenrheidiol yn eich barn chi i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a amlinellir?

- Ymchwil
- Hyfforddiant
- Marchnata

- Rhannu profiad, gweithdrefnau, polisiau ac unrhyw adnoddau eraill i helpu mudiadau, busnesau a sefydliadau i ddatblygu gwrth-hiliaeth ym mhob agwedd o'u gwaith.

6. Ydych chi'n teimlo bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn ymdrin yn ddigonol â chroestoriad hil â nodweddion gwarchodedig eraill megis crefydd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, trawsrywedd, rhyw, a statws priodasol a phartneriaeth sifil? Os na, sut y gallwn wella hyn?

7. Gweler yr adran Llywodraethu. Pa awgrymiadau allwch chi eu cynnig ar gyfer mesur llwyddiant wrth greu Cymru wrth-hiliol ac ar gyfer cryfhau atebolrwydd am weithredu?

8. Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Prin yw'r son am y Gymraeg heblaw dan nodau polisi addysg a'r Gymraeg. Pryderwn fod y Gymraeg yn ymylol yn y cynllun hwn yn hytrach nag yn thema ar draws y cynllun ac yn rhan integral o'r gweithredu i greu Cymru gwrth-hiliol a chynhwysol.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

9. Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid trefnu neu newid y dull polisi arfaethedig er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dylid rhoi'r un cyfle i bobl ddysgu'r Gymraeg fel y cyfleoedd i ddysgu Saesneg. Pryderwn am y dystiolaeth sy'n awgrymu nad yw'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno fel opsiwn i fewnfudwyr fel y mae ymchwil Dr Gwennan Higham yn ei awgrymu. Yn hytrach, dylid gweld y Gymraeg fel ffordd o groesawu a Meithrin ymdeimlad o berthyn:
*'Providing a Welsh language provision for migrants is one way of addressing inequalities in formal adult language provision. Informal language provision, such as language partnership schemes, can also provide ways of involving the host society. More importantly, widening access to both Welsh and English opens up new ways for migrants to participate in the host society.'*[4]

---

[4] Migrants, multilingualism and the Welsh language | British Council

10. Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd, ac mae trafodaethau ynghylch iaith a hunaniaeth wedi dangos nad yw llawer o bobl yn ystyried bod y term 'BAME' yn briodol. O ganlyniad, rydym yn cyfeirio at bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol neu bobl ethnig leiafrifol penodol yn y Cynllun. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y term hwn hefyd yn broblemus a'i bod yn well, lle bo'n bosibl, bod yn fwy penodol am yr hil neu'r ethnigrwydd y mae unigolyn neu gymuned yn uniaethu ag ef. Fodd bynnag, ar adegau mae angen cyfeirio at yr holl bobl hynny sy'n rhannu'r profiad o fod yn destun hiliaeth. Rydym wedi defnyddio'r term pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol at y diben hwn. Beth yw eich barn am y term hwn ac a oes dewis arall sy'n well gennych? Gall siaradwyr Cymraeg ystyried termau addas yn y ddwy iaith.

Cytunwn ei fod yn derm addas, dyma dermau eraill rydym wedi eu clywed:

- Amrywiaeth hil / racially diverse
- PERI – People Experiencing Racial Inequality
- CERI – Communities Experiencing Racial Inequality

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, gallwch eu nodi yma: